Hoffech chi chwarae rôl sy'n cefnogi eich cymuned leol?

Ydych chi wedi ystyried bod yn gynghorydd cymuned neu dref?

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae cynghorwyr cymuned a thref yn cael eu hethol gan bobl yn y gymuned leol ac maen nhw'n atebol i'r bobl hyn. Fel cynghorydd, byddwch yn cynrychioli barn pobl leol ac yn gwneud penderfyniadau am amrywiaeth o faterion yn ymwneud â'r gymuned. Byddwch hefyd yn cael y cyfle i rannu eich sgiliau galwedigaethol neu bersonol a'ch arbenigedd.

Democratiaeth ar lawr gwlad ar ei gorau!

Diddordeb?

Mae etholiadau Llywodraeth Leol yn cael eu cynnal ar **4 Mai 2017**.

Eisiau gwybod mwy?

Siaradwch yn uniongyrchol ag aelodau o'ch cyngor cymuned neu dref neu cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol am ganllawiau ar reoliadau a gweithdrefnau etholiadol
www.comisiwnetholiadol.org.uk

Mae taflen Cwestiynau Cyffredin a dogfen ganllawiau i ymgeiswyr hefyd yn cyd-fynd â'r daflen hon. Ewch i wefan Un Llais Cymru i weld y canllawiau i ymgeiswyr **www.unllaiscymru.org.uk**

OGL © Hawlfraint y Goron 2016 WG30232 ISBN digidol 978 1 4734 8233 3